Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 15.11.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# DIGWYDDIAD: Gweminar Busnes@gwynedd.llyw.cymru – Arbed Ynni, Arbed Arian 22 Tachwedd 2022

Busnes@gwynedd.llyw.cymru – bydd gweminar yn cael ei gynnal ar 22 Tachwedd 2022 sy'n cynnig cyngor ymarferol i fusnesau i leihau eu defnydd ynni a'r costau cysylltiedig ac yn darparu cyngor ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael yn ehangach i wneud hynny. Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3T6OAZX

# CYMORTH: Cyngor ynni, canllawiau a chyfrifiannell costau busnesau

Mae UKHospitality wedi cyhoeddi cyngor ynni, canllawiau a chyfrifiannell costau sydd ar gael i bob busnes. Maent ar gael ar:

http://bit.ly/3UCDuxf

# DIGWYDDIAD: Sector Adeiladwaith – Gweithdy 'Sut i brisio job' 8 Rhagfyr 2022

Bydd gweithdy 'Sut i brisio job' yn cael ei gynnal yn Busnes@LlandrilloMenai, Ffordd Penlan, Bangor LL57 4HJ ar 8 Rhagfyr 2022 (1:00pm-4:00pm), ar gyfer busnesau adeiladu lleol, gan gynnwys adeiladwyr cyffredinol, plymwyr a thrydanwyr. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3hDppRC

# RECRIWTIO: Ffair Swyddi Gwaith Gwynedd Bangor – diolch

Dymuna menter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd, ddiolch i'r holl fusnesau a gymerodd ran yn Ffair Swyddi Gwaith Gwynedd Bangor ar 8 Tachwedd 2022 a sicrhau ei fod yn llwyddiant ysgubol. Daeth dros 100 o unigolion i'r digwyddiad ac mae o leiaf 26 o gynigion swyddi wedi'u gwneud hyd yma o ganlyniad i'r digwyddiad. Os oes gennych diddordeb mynychu digwyddiad tebyg yn y dyfodol, plîs cysylltwch hefo Gwaith Gwynedd ar gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru neu 01286 679211.

Mae Gwaith Gwynedd eisoes wedi cychwyn ar gynllunio digwyddiadau ar gyfer yr ardaloedd canlynol yn y flwyddyn newydd: Caernarfon, Bangor, Porthmadog, Pwllheli, Bermo a Dolgellau ac yn y cyfamser gallwch hefyd hysbysebu unrhyw swyddi gwag ar hysbysfwrdd Gwaith Gwynedd:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

# TRAFNIDIAETH: A5 Pont y Borth: cwestiynau cyffredin

Yn dilyn cau A5 Pont Menai (Pont Borth) i'r holl draffig oherwydd ystyriaethau diogelwch y cyhoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau i gwestiynau cyffredin am gau'r bont, sydd i'w cael ar:

https://llyw.cymru/a5-pont-y-borth-cwestiynau-cyffredin

# TRAFNIDIAETH: Adnewyddu Traphont Abermaw

Bydd Traphont Abermaw ar gau o 13 Tachwedd 2022 tan 10 Rhagfyr 2022, gan gynnwys cau'r llwybr troed, ar gyfer gosod trac newydd. Mae mwy o wybodaeth, gan gynnwys manylion am y gwasanaeth bws yn lle'r trên, fydd yn gweithredu rhwng gorsafoedd Pwllheli a Machynlleth, i'w gael ar:

http://bit.ly/3WYc9r0

# DIGWYDDIAD: Busnes Cymdeithasol Cymru – Gwersi i fy hunan yn y dyfodol 17 Tachwedd 2022

Ymunwch â Busnes Cymdeithasol Cymru ar Ddiwrnod Menter Gymdeithasol i glywed gan siaradwyr ysbrydoledig ac arobryn sy'n arloesi ym myd busnes cymdeithasol ledled Cymru yn y digwyddiad ar-lein yma ar 17 Tachwedd 2022 (1:00pm-2:00pm). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3TusBMN

# YMGYRCH: Wythnos Cyflog Byw 2022

Wythnos yma yw'r Wythnos Cyflog Byw, dathliad blynyddol y mudiad Cyflog Byw yn y DU. Mae dros 10,000 o fusnesau yn y DU, sy'n credu bod eu staff yn haeddu cyflog sy'n bodloni anghenion bob dydd, yn talu'r Cyflog Byw go iawn yn wirfoddol.

Darganfyddwch mwy am y buddion i fusnesau a’u gweithwyr, cyfraddau’r Cyflog Byw a sut i gymryd rhan, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/wythnos-cyflog-byw-2022

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru